Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Llangynwyd
Maesteg
PEN-Y-BONT AR OGWR
CF34 9RW

Ffôn/Phone: 01656 815700
Ffacs/Fax: 01656 815701
Ebost:email: post.ygglangynwyd@bridgend.gov.uk
Trydar/Twitter: @ygglangynwyd1

Prifathro / Headteacher: Mr Meurig Jones BA (Anrh) CPCP

31ain o Hydref 2016

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

Gyda thristwch mawr yr ysgrifennaf i'ch hysbysu o'r newyddion torcalonnus bod un o'n disgyblion Kelsey-Lee Sheldon Blwyddyn 10, wedi marw dros y penwythnos o achosion naturiol yn gysylltiedig ag asthma.

Mae'r fath newyddion, wrth gwrs, wedi dod fel sioc enfawr i ni i gyd ac mae teulu a ffrindiau Kelsey yn ein meddyliau a chydymdeimlwn â hwy yn ddiffuant. Mae'r golled wedi cael effaith anferthol arnom fel ysgol ond hyderaf y gallwn gefnogi'n gilydd drwy'r profiad anodd hwn.

Rydym wedi egluro i'r disgyblion y gwnawn bopeth posibl i'w cefnogi, gyda chefnogaeth staff gwasanaeth seicoleg addysg Pen-y-bont. Yn ogystal â staff yr ysgol, mae cwnselwyr o'r Sir wedi bod yn bresennol yn yr ysgol heddiw yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion siarad a mynegi eu teimladau. Byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth i'n disgyblion ac rydym wedi pennu ardaloedd addas ar eu cyfer yn yr ysgol.

Mae llyfr coffa wedi ei agor gennym yn yr ysgol ac rydym wedi gwahodd unrhyw ddisgybl sy'n dymuno gadael neges i wneud hynny dros y dyddiau nesaf.

Bwriadwn gadw at ein trefn ysgol arferol cyn belled ag sy'n bosibl er lles y disgyblion a chofiwch chithau fel rhieni gysylltu â ni os allwn fod o gymorth.

Efallai y bydd y cysylltiadau isod yn ddefnyddiol:

Winston's Wish: www.winstonswish.org.uk 0845 2030405
Cruse Bereavement Care Youth Line 0808 808 1677 www.cruse.org.uk
Cymorth Cynnar Pen-y-bont: 01656 815410
Tîm Seicolegwyr Addysg: 01656 815230

Atgofion melys sydd gennym o Kelsey. Roedd yn uchel ei pharch yn yr ysgol gyda'r holl staff a disgyblion, yn ddisgybl a oedd yn ymroi i agweddau gwahanol o fywyd yr ysgol. Bydd colled enfawr yn Llangynwyd ar ei hôl.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i theulu a'i ffrindiau ar yr adeg anodd iawn hwn.

Meurig Jones

Prifathro

Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
ICT MARK ACCREDITED
International School Award 2016-2019

Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Llangynwyd
Maesteg
PEN-Y-BONT AR OGWR
CF34 9RW

Ffôn/Phone: 01656 815700
Ffacs/Fax: 01656 815701
Ebost:email: post.ygglangynwyd@bridgend.gov.uk
Trydar/Twitter: @ygglangynwyd1

Prifathro / Headteacher: Mr Meurig Jones BA (Anrh) CPCP

31st of October 2016

Dear Parents/ Guardians

It is with great sadness that I write to inform you that we received the tragic news of the death of one of our pupils Kelsey-Lee Sheldon, over the weekend due to natural causes linked to asthma.

Such tragic news has, of course, come as a great shock to us all and our thoughts and sympathy go out to Kelsey's family and friends. The loss has had a huge effect on us as a school, but I am confident that we will all pull together to support one another through this difficult time.

We have told the pupils that we will do all we can to support them, guided by staff from Bridgend educational psychology service. As well as our own staff, trained counsellors have been present at school today offering pupils an opportunity to talk or express their feelings in other ways. We will continue to be available for the pupils to talk and ask questions and we will make areas available for them at school for this.

Any pupils who would like to write a message will be invited to do so in a book of condolence over the next few days.

We will keep to our usual school routine as far as possible in order to provide the pupils with stability and you as parents are also very welcome to contact us if we can support you.

The following contacts may be useful to you:

Winston's Wish: www.winstonswish.org.uk 0845 2030405
Cruse Bereavement Care Youth Line 0808 808 1677 www.cruse.org.uk
Bridgend Early Help Team: 01656 815410
Educational Psychology Team: 01656 815230

Kelsey will be remembered with great fondness by pupils and staff alike. She was well respected at the school, committed to many aspect of school life and will be sorely missed by all at Llangynwyd.

Our thoughts are with her friends and family at this very difficult time.

Meurig Jones

Prifathro

Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
ICT MARK ACCREDITED
International School Award 2010-2013